

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

cyswllt FFERMIO



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

**Cynllun Rheoli Cynaliadwy
(SMS) - Gwasanaeth newydd i
gefnogi ffermwyr a choedwigwyr**

Pridd, Tail ac Arian
Gweithio gyda'n gilydd i leihau
llygredd amaethyddol yng Nghymru



RHIFYN 15 - Mai/Mehefin 2018 | www.llyw.cymru/cyswlltffermio



GWYN PARRY

Orsedd Fawr, Pencaenewydd, Pwllheli
Safle Arddangos Cyswllt Ffermio

CYFLWYNIAD

Gan fod y silwair wedi dod i ben a bod prisiau dwysfwyd ar gynnydd, cafodd lloeau'r llynedd eu troi allan yn ystod trydedd wythnos mis Mawrth, er nad oedd twf glaswellt yn agos at y lefel y byddwn wedi'i ddymuno.

Yn ffodus, fe wnaethom ni dynnu'r stoc oddi ar y bloc pori celloedd ar ddiwedd mis Tachwedd, dros fis ynghynt na llynedd; ond er hyn, dim ond 1810KgDM/ha oedd cyfartaledd y gorchudd glaswellt erbyn canol Mawrth o'i gymharu â 1992kgDM/ha ar gyfer yr un cyfnod yn 2017. Dylai'r bustych fod yn iawn ar gyfer y rownd gyntaf o bori, ond os na fydd y tywydd yn cynhesu'n fuan, bydd cynnydd pwysau byw dyddiol (DLWG) yn siŵr o gael ei effeithio.

O ganlyniad i'r gwanwyn araf, mae'r tymor ŵyna wedi mynd yn well na'r disgwyl. Rydym yn ŵyna'r holl famogiaid yn yr awyr agored, ac yn ystod gwanwyn arferol, mae'r ŵyn yn dueddol o fynd yn eithaf mawr erbyn diwedd y tymor gan

fod mwy o laswellt ar gael, gan achosi problemau geni, ond roedd hyn yn llai o broblem eleni. Yr anfantais i hyn oedd bod angen i ni roi dwysfwyd ychwanegol i'r mamogiaid ar ôl ŵyna, sy'n rhywbeth na fyddwn yn ei wneud fel arfer. Fel y rhan fwyaf o ffermydd rwy'n siwr, rydym ni wedi gwario mwy na'r arfer ar ddwysfwyd eleni a does dim amheuaeth y bydd hynny'n effeithio ar elw'r fferm.

Gobeithio y cawn ni haf sych a phoeth eleni. Mae'r tywydd gwlyb tua diwedd yr haf y llynedd wedi achosi nifer o broblemau i ni gyda mwy o faich llyngyr ar y da byw ar adeg pan oeddem ni'n ceisio pesgi gwartheg ac ŵyn ar y borfa. Mae'n debyg bod yr hen dueddiadau tymhorol a ddysgais amdanynt yn y coleg yn newid mewn ymateb i hinsawdd sy'n newid, ac mae cynnal profion cyfrif wyau ysgarthol (FEC) ar gyfer llyngyr, llyngyr yr iau a llyngyr y rwmen yn dod yn fwy a mwy pwysig yn fy marn i.

Gweithio gyda'n gilydd i leihau llygredd amaethyddol yng Nghymru

Mae Cyswllt Ffermio yn cydlynu ymgyrch wedi'i arwain gan y diwydiant i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol yng Nghymru. Dylai sicrhau ansawdd dŵr trwy leihau llygredd amaethyddol fod yn flaenoriaeth i bob ffermwr yng Nghymru.

Mae'r gefnogaeth ganlynol ar gael gan Cyswllt Ffermio er mwyn eich cynorthwyo i leihau llygredd amaethyddol a gwella ansawdd dŵr:

GWASANAETH CYNGHORI

Darparu cyngor arbenigol, annibynnol, cyfrinachol wedi'i deilwra.

- Cyllid hyd at 80% am gyngor un i un
- Cyllid o 100% am gyngor grŵp*

Mae enghreifftiau o'r cyngor sydd ar gael yn cynnwys:

- Cynllunio rheolaeth pridd a maetholion
- Rheoli a storio slyri a thail buarth
- Isadeiledd Fferm

MENTORA

Hyd at 22.5 awr o fentora gan ffermwyr sydd wedi gwneud newidiadau cadarnhaol ar eu ffermydd eu hunain wedi'i ariannu'n llawn.

CYNLLUN RHEOLI CYNALIADWY

Mae'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy yn darparu cymorth ariannol ar gyfer ystod o weithgareddau a fydd yn gwella rheolaeth o'n hadnoddau naturiol. Mae gwasanaeth cefnogi wedi cael ei lansio sy'n darparu cefnogaeth i grwpiau o ffermwyr sy'n dymuno ymgeisio ar gyfer y cynllun.

EIP WALES

Gall grwpiau sydd â syniadau arloesol i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol ddatblygu prosiect gyda chymorth trwy raglen EIP Wales.

AGRISGÔP

Gan weithio ar y cyd fel rhan o grŵp Agrisgôp, gallwch gael mynediad at wybodaeth arbenigol i archwilio a datblygu opsiynau hyfwr i fynd i'r afael â materion penodol.

CYMORTHFEYDD CYNLLUNIO

I awr o gyngor ar gael gan ymgyngorydd cynllunio annibynnol.

PROSIECTAU A DIGWYDDIADAU'R RHWYDWAITH ARDDANGOS

Prosiectau a digwyddiadau sy'n arddangos arloesedd o fewn ffermio a choedwigaeth. Am ddyddiadau a lleoliadau ar gyfer y digwyddiadau 'pridd, tail ac arian' sydd ar y gweill, ewch i www.llyw.cymru/cyswlltffermio.

Mae cyngor a chefnogaeth bellach ar ffurf erthyglau technegol a modiwlau e-ddysgu ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio - www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Am fwy o fanylion am y gwasanaethau, cysylltwch â Chanolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio - **08456 000 813** - farmingconnect@menterabusnes.co.uk

*Cyllid o hyd at 80% hyd at uchafswm o €1500 (ewro) am bob achos o gyngor un i un, neu gyllid o 100% ar gyfer cyngor grŵp (o leiaf tri aelod mewn grŵp) hyd at uchafswm o €1500 (ewro) fesul pob aelod o'r grŵp.

Pridd, Tail ac Arian – DIGWYDDIADAU NEWYDD

Abby James, Swyddog Technegol Llaeth Cyswllt Ffermio

Trwy Wasanaeth Cyngori Cyswllt Ffermio mae llawer o ffermydd wedi cwblhau cynllun Rheoli Maetholion ar sail samplau pridd a gasglwyd, ac mae ar lawer ohonynt angen newid eu rheolaeth.

Dangosodd canlyniadau pridd 4848 o samplau i Cyswllt Ffermio yn 2016 bod cyfartaledd y pH yn 5.8, roedd 70% o'r priddoedd a brofwyd dan pH 6.0. Mae hyn yn awgrymu nad oes buddsoddi mewn calch.

Mae chwalu calch yn ffordd syml, effeithiol o gynyddu cynhyrchiant a chadw rhygwellt Eidalaid a meillion. Mae pH y pridd yn cael effaith ar argaeledd maetholion a bydd maetholion hanfodol i blanhigion yn haws eu defnyddio.

Dangosodd y canlyniadau hefyd nad oedd 64% o'r samplau ar y mynegai targed ar gyfer ffosffad o 2 ar un modd gyda photash ar 68%. Gan fod y mynegeion yma yn cymryd rhwng 5 a 10 mlynedd i newid, mae angen i'r Cynlluniau Rheoli Maetholion hyn gael eu gweithredu.

FFEITHIAU ALLWEDDOL

- Dim digon o galch yn arwain at golledion o ran cynhyrchiant.
- Dim ond 1mm y bydd ffosffad yn symud yn y pridd, felly rhaid i wreiddiau fynd trwyddo. Mae gormodedd o ffosffad yn risg amgylcheddol. Rhaid cyrraedd y targed!
- Mae gan laswellt y gallu i gymryd mwy o botash nag y mae arno ei angen, ac felly mae silwair yn cael gwared ar fwy o botash nag yr ydych yn ei chwalu mae'n debyg! Rhaid cynllunio i chwalu potash ar dir silwair yn yr hydref i'r caeau nad ydynt yn cyrraedd y targed.
- Bydd deall gwerth tail a slyri a dysgu sut a ble i'w defnyddio orau yn ogystal â maetholion eraill, yn eich helpu i gadw costau ar eu lefel isaf.

Trwy wella'r pridd yn y tymor hwy trwy ei reoli'n fwy effeithiol, byddwch yn gwella cynaliadwyedd tymor hir eich tir yn ogystal â lleihau lefelau llygredd amaethyddol a lleihau eich ôl troed carbon.

Bydd ein digwyddiadau Tail, Pridd ac Arian yn trafod y ddamcaniaeth tu ôl i fanteision cynllunio i reoli maetholion; storio slyri a seilwaith a hefyd yn cynnwys arddangosfeydd i ddangos amrywiaeth o offer cyflyru a draenio pridd.

Mae gan Cyswllt Ffermio amrywiaeth o wasanaethau a all fod o help i ffermwyr i wella ansawdd eu tir yn amrywio o gyngor technegol sydd ar gael trwy'r Gwasanaeth Cyngori (all gael ei ariannu'n llawn i grwpiau, neu gyda chymhorthdal 80% i unigolion) i wasanaethau rheoli pridd, maetholion a thail ac asesiadau risg amgylcheddol.

Er mwyn gweld dyddiadau a lleoliadau'r digwyddiadau 'Pridd, tail ac arian' ewch i

www.llyw.cymru/cyswlltffermio



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Digwyddiadau Pridd, Tail ac Arian

DATE	VENUE	CONTACT
17/05/2018 11:00 - 15:00	Llwyn Goronwy, Llanrwst, Conwy, LL26 0PD	Geraint Jones 07398 178 698 geraint.jones@menterabusnes.co.uk
22/05/2018 19:00 - 21:30	Penrallt, Llantood, Cardigan, Pembrokeshire, SA43 3NU	Menna Williams 07399 600 146 menna.williams@menterabusnes.co.uk
07/06/2018 11:00 - 13:00	Clovers Farm, Letterston, Hwlfordd, Sir Benfro, SA62 5TT	Dr Delana Davies 07811 261 628 delana.davies@menterabusnes.co.uk
18/06/2018 11:00 - 14:00	Goldslands Farm, Wenfô, Caerdydd, CF5 6BE	Imogen Ward 07985 379 819 imogen.ward@menterabusnes.co.uk
19/06/2018 16:00 - 18:00	Trefnant Isaf, Maesmawr, Y Trallwng, SY21 9JG	Lisa Roberts 07399 849 148 lisa.roberts@menterabusnes.co.uk
21/06/2018 13:00 - 15:00	Cefn Amlwch, Tudweiliog, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8AX	Gwawr Hughes 07932 610 697 gwawr.hughes@menterabusnes.co.uk
22/06/2018 10:45 - 14:00	Marian Mawr, Dyserth, Rhyl, LL18 6HT	Rhys Davies 07985 379 880 rhys.davies@menterabusnes.co.uk



www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Cyfarwyddo gyda Phori Cylchdro

Menna Williams - Swyddog Technegol Cig Coch Cyswllt Ffermio

Mae Rhun a Nerys Williams yn cadw system da byw cymysg ar fferm Ochor, ger Tregaron. Mae'r fferm yn ymestyn dros ardal o oddeutu 85 hectar, ac mae'r tir yn amrywio o 120 i 200 metr uwch lefel y môr. Mae'n fferm tir glas cymysg sy'n cadw defaid a gwartheg, gydag oddeutu 550 o famogiaid bridio (250 o ddefaid Cymreig a 300 o ddefaid miwl) ynghyd â 120 o wŷn benyw.

Yn ystod mis Mai 2017, gyda chefnogaeth arbenigwr glaswelltir a mesurydd plât, sefydlodd Rhun system pori cylchdro ar fferm Ochor. Yn wreiddiol, dechreuodd drwy bori dau grŵp o famogiaid (90 ym mhob grŵp) ac wŷn mewn gwahanol ardaloedd ar y fferm. Bu'n defnyddio'r isadeiledd ffensio presennol ar gyfer hyn, yn hytrach na defnyddio ffensys trydan. Cafodd y ddau grŵp 8 padog i'w pori, gan dreulio rhwng 2 a 4 diwrnod ym mhob padog gan ddibynnu ar faint y padog.

Ar ôl diddyfnu, cafodd 12ha o dir ei neilltuo ar gyfer pesgi wŷn. Crëwyd cyfanswm o 24 padog (0.6 i 0.8 hectar) gan ddefnyddio deunyddiau ffensys trydan a oedd eisoes ar gael ar y fferm. Ar 26 Gorffennaf, cyflwynwyd wŷn tair wythnos ar ddeg oed i'r borfa, a chawsant eu cadw ar ddwysedd o 21 oen/ha. Roedd Rhun yn anelu at droi wŷn i borfeydd 2000kg/DM a'u pori hyd at 1400kg/DM. Parhaodd i bori'r tir hyd ddiwedd mis Tachwedd.

Y budd mwyaf yw'r cynnydd yn nifer yr wŷn sy'n cyrraedd y pwysau delfrydol, o ganlyniad uniongyrchol i fesur y glaswellt a gwybod faint yn union o laswellt sydd ar gael. Yn y gorffennol, byddai Rhun bob amser yn cael achlysuron lle byddai'n meddwl ei fod yn brin o laswellt ac yn anfon wŷn ymylol i'r lladd dy i leihau niferoedd ac i leihau pwysau ar y tir. Mae bod yn ymwybodol o'r glaswellt a oedd ar gael wedi rhoi sicrwydd iddo allu cadw wŷn a'u hanfon i'r lladd-dy pan fo'r pwysau a'r cydffurfiad yn gywir, gan arwain at 74 yn fwy o wŷn yn cyrraedd gradd U yn 2017 o'i gymharu â 2016.

Manteision ychwanegol o bori cylchdro

- ✓ Gwelliannau mewn ffrwythlondeb a strwythur y pridd
- ✓ Lleihau baich llyngyr o ganlyniad i symud yn rheolaidd
- ✓ Lleihau dibyniaeth ar borthiant a brynir
- ✓ Cynyddu'r gyfradd stocio
- ✓ Gall pori cylchdro fod o fantais ar gyfer porfeydd sydd eisoes wedi'u sefydlu a phorfeydd newydd



Mynd i'r afael â phori cylchdro

Fferm Ochor, Tregaron, Ceredigion, SY25 6QT

Dyddiad: 24/05/2018 Amser: 14:00 - 16:00

Menna Williams - 07399 600 146
menna.williams@menterabusnes.co.uk

Prif Bwyntiau i'w hystyried gan gynhyrchwyr

moch - Jodie Roberts, Swyddog Technegol Moch a Dofednod

Bu Richard Hooper, rheolwr yr uned foch dan do sy'n cadw 230 hwch ym Mhrifysgol Harper Adams, yn siarad gyda chynhyrchwyr moch mewn digwyddiadau a gynhaliwyd gan Menter Moch Cymru a Cyswllt Ffermio, gan gynnig cyngor gwerthfawr.

Roedd Richard yn cynghori ffermwyr i symleiddio eu system. Byddai busnesau'n gweld cynnydd mewn effeithlonrwydd wrth ddefnyddio dull ffermio manwl gywir. Mae Richard wedi treialu cyfres o strategaethau rheoli i wella a symleiddio'r system fagu moch, gyda chanlyniadau cadarnhaol.

Mae'r genfaint yn geni perchyll mewn grwpiau dros gyfnod o dair wythnos, gan olygu bod pob adeilad yn gweithredu ar sail 'pob un i mewn, pob un allan' sy'n caniatáu ar gyfer glanhau a diheintio'n llawn rhwng pob grŵp i wella iechyd; mae cyfraddau twf wedi gwella trwy ddod â geneteg newydd i mewn. Mae Richard yn parhau i addasu'r maeth, megis darparu bwydydd gwahanol er mwyn pesgi baeddod a hesbinychod. Un rheswm am hyn yw bod gan foch gwryw a benyw ofynion gwahanol o ran yr asid amino, lysîn, sy'n brotein costus mewn bwyd moch.

Anogir ffermwyr i gynnal eu treialon bwydo eu hunain ar y fferm, gan gyflwyno diet gwahanol ar bob cam, i weld beth sy'n gweddu orau i'w moch. Mae Richard hefyd yn canolbwyntio ar faeth perchyll newydd anedig ac yn darparu llaeth ychwanegol i dorllwythi.

"Rydym ni'n cael llai o berchyll gwan iawn trwy fwydo llaeth ychwanegol. Mae hyd at ddau borchell o bob cenfaint yn cael eu magu ar y llaeth yma'n unig, ac mae'r moch yma'n dueddol o fwyta mwy o ddwysfwyd felly nid ydynt yn cael eu heffeithio gymaint wrth ddiddyfnu gan fod eu perfedd yn fwy aeddfed."

Ni ddylid diystyru'r gwasarn chwaith. Mae'r rhai sy'n defnyddio systemau'n seiliedig ar wellt yn cael eu hannog i ddefnyddio gwellt haidd yn hytrach na gwellt gwenith gan y bydd yn cyflwyno llai o berygl o gyflwyno gwenwyn ffwng i'r moch.

"Efallai bod y gwellt yn ymddangos yn lân, ond gall gwellt da fod yn llawn gwenwyn ffwng, sy'n golygu y bydd moch yn gwenwyno eu hunain hyd yn oed os mai ychydig iawn y byddant yn ei fwyta bob dydd."

Ymunwch â Cyswllt Ffermio yng Ngŵyl Wanwyn CAFC 2018 am gyfle i wella eich dealltwriaeth o foch.

PRYD?	BLE?	BETH?
Dydd Sadwrn 19 a Dydd Sul 20 Mai	Adran Foch, Maes y Sioe Frenhinol, Llanelwedd	Arddangosiadau a sesiynau 1 i 1 gydag arbenigwyr o'r diwydiant moch gan gynnwys y milfeddyg moch adnabyddus, Bob Stevenson.

Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Mae bod yn barod am y dyfodol a meddu ar y sgiliau cywir i ddatblygu eich busnes yn bwysicach nag erioed. Gosod targedau ar gyfer amcanion personol ac amcanion eich busnes yw'r cam cyntaf tuag at gwblhau Cynllun Datblygu Personol (PDP) am ddim ar-lein, sydd hefyd yn medru eich helpu i asesu lefel eich sgiliau presennol ac adnabod eich angen am hyfforddiant.

Ar ôl i chi gwblhau PDP, gallwch wneud ceisiadau am gyllid i gwblhau cyrsiau hyfforddiant achrededig byr sy'n helpu unigolion i ehangu eu sgiliau o fewn y busnes. Siaradwch gyda'ch Darparwr Hyfforddiant bob tro er mwyn trafod eich anghenion hyfforddiant a sicrhau eich bod yn ymgeisio am y cwrs priodol.

Os oes angen cefnogaeth ychwanegol arnoch i gwblhau'r PDP, cadwch lygad am y ddiwyddiadau PDP a fydd yn cael eu cynnal ym mis Mehefin.

Ar ôl i chi gwblhau hyfforddiant drwy Cyswllt Ffermio, boed yn hyfforddiant e-ddysgu neu wyneb yn wyneb, o haf 2018 ymlaen bydd eich holl weithgareddau dysgu yng nghofnod y Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) i'w gweld yn eich cyfrif BOSS. Bydd pob tystysgrif achrededig rydych chi wedi eu hennill yn cael eu llwytho i'r wefan ar eich rhan. Yn wir, bydd unrhyw weithgaredd rydych chi'n ymgymryd ag ef drwy raglen presennol Cyswllt Ffermio yn cael ei gofnodi gan ddarparu tystiolaeth o CPD y gallwch ei lawrlwytho a'i ddefnyddio at sawl diben, gan gynnwys cefnogi eich CV mewn ceisiadau swydd. Mae'n bosib hefyd cofnodi gweithgareddau nad ydynt yn rhan o Cyswllt Ffermio yn y cofnod CPD.

Er mwyn i chi fedru cael mynediad at y cofnod CPD, PDP, cyrsiau e-ddysgu a ffurflen gwneud cais am gyllid, mae'n rhaid i chi gofrestru gyda Cyswllt Ffermio, derbyn eich enw defnyddiwr BOSS a chyfrinair o'r Ganolfan Wasanaeth cyn mewngofnodi i wefan BOSS Busnes Cymru er mwyn sicrhau bod gennych chi'r sgiliau priodol a dechrau cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Am fwy o wybodaeth, rhestr llawn o'r cyrsiau sy'n cael eu hariannu drwy'r rhaglen a manylion cyswllt Darparwyr Hyfforddiant, ewch i:

<https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/hyfforddiant-wyneb-yn-wyneb>



Gwasanaeth newydd i gefnogi ffermwyr a choedwigwyr i ymgeisio am y Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS) – Rhaglen Datblygu Gwledig, Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru

Mae gwasanaeth newydd wedi cael ei lansio i gefnogi grwpiau o ffermwyr i ymgeisio am y Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS). Mae'r SMS yn cynnig grantiau o hyd at £700,000 ar gyfer grwpiau cydweithredol sy'n ceisio gwella rheolaeth adnoddau naturiol ac wrth wneud hynny yn cyfrannu at les cymunedau gwledig.

Mae pymtheg hwylusydd wedi cael eu dewis i ddarparu cefnogaeth i grwpiau o ffermwyr er mwyn datblygu eu syniadau ac i gyflwyno eu datganiadau o ddiddordeb i Lywodraeth Cymru. Os bydd grwpiau'n llwyddiannus gyda'r cais datganiadau o ddiddordeb ac yn cael eu gwahodd i gyflwyno cais llawn, bydd yr hwylusydd ar gael i ddarparu cefnogaeth bellach.

Dyweddodd Eirwen Williams, Cyfarwyddwr Menter a Busnes "Bydd y gwasanaeth hwn yn rhoi arweiniad a gwybodaeth i ffermwyr wrth iddynt ddatblygu eu syniadau. Weithiau gall y broses o wneud cais am gyllid ymddangos yn anodd ond gyda'r hwylusydd wrth law bydd cefnogaeth barhaus ar gael i'r grwpiau."

Enghreifftiau o brosiectau llwyddiannus yn y gorffennol yw rhaglen Dalgylch Eden sef prosiect sy'n cael ei arwain gan ffermwyr sy'n canolbwyntio ar wella dalgylch yr afon Eden trwy blannu a rheoli coed collddail brodorol; a phrosiect Fferm Ifan, cydweithrediad o 11 o ffermwyr sy'n defnyddio dulliau rheoli tir newydd wedi'u targedu'n benodol at wahanol ardaloedd ond sydd hefyd yn darparu buddion economaidd-gymdeithasol.

Mae proffiliau hwyluswyr ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio, a gall ffermwyr ddewis yr hwylusydd sydd fwyaf addas ar gyfer eu gofynion.

Dylai ffermwyr sydd â diddordeb gysylltu â Chanolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio ar **0845 6000 813** neu ymgeisio ar lein <https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/gwasanaeth-cefnogi-cynllun-rheoli-cynaliadwy-sms->

Ysgall - problem bigog!

Mae ysgall y maes "creeping thistle" (*Cirsium arvense*), yn olygfa lawer rhy gyffredin. Gwelir ysgallen y gors "Marsh thistle" (*Cirsium palustre*) a'r farchysgallen "Spear thistle" (*Cirsium vulgare*). yn aml hefyd. Rhai eraill, llai cyffredin, yw'r ysgallen wlanog, ysgallen ddigoes a'r ysgallen fwyth.

Y mwyaf difethol yw ysgall y maes, â'i allu i dyfu dan ddaear yn gyflym iawn sy'n cynhyrchu lluo o goesynnau sy'n golygu y gall darn o ysgall dyfu mwy nag un planhigyn i bob 5 metr neu fwy mewn dim ond blwyddyn. Mae'r gwreiddiau hefyd yn frau iawn ac yn torri'n rhwydd yn ddarnau sy'n tyfu yn blanhigion newydd, felly gall trin y tir waethygu'r broblem. Mae bagio gan dda byw hefyd yn gallu achosi i'r pridd gael ei chwalu ac yn creu darnau moel y gall yr ysgall ymsefydlu ynddynt yn hawdd.

Sut mae ysgall yn effeithio ar gynhyrchiant da byw?

Gall pob ysgellyn atal anifeiliaid rhag pori o'i gwmpas am hyd at 20cm oddi wrtho, felly gall dim ond un ysgellyn i'r m2 effeithio ar fwy na 12% o'r ardal bori sydd ar gael. Gall effaith ariannol hyn fod yn sylweddol os bydd raid i ni ystyried cael egni a phrotein yn lle hwn trwy brynu dwysfwd er mwyn cynnal cyfradd dwf y da byw a'u cynhyrchiant.


Beth am eu rheoli?

Yn ôl gwaith ymchwil, y dull mwyaf effeithiol o reoli ysgall y maes yw cyfuniad o chwynlychwr ym Mehefin ac yna pori yn ofalus yn yr hydref (8-10cm i wartheg; 6-8cm i ddefaid) mewn dau dymor tyfu olynol. Mae hyn yn lleihau dwyster ysgall y maes o 99%. Mae'r cyfuniad o clopyralid a triclopyr (e.e. *Thistlex*) yn sicrhau bod y gweithgaredd yn cynyddu ar yr ysgall gan roi rheolaeth ragorol sy'n parhau.

Yn yr ymchwil a gynhaliwyd ar Bronydd Mawr, fferm Ymchwil yr Ucheldir, gostyngwyd dwyster ysgall y maes trwy ddefnyddio'r strategaeth hon.

Nid oedd pori'n drwm yn ystod y gwanwyn yn cael unrhyw effaith ar niferoedd yr ysgall, ond roedd yn ddymunol i gael gwahaniaeth mawr rhwng coesau'r ysgall â'r rhywogaethau pori o'i gwmpas cyn ei chwynlychu.

Yr arfer rheoli pori allweddol yw osgoi pori'n drwm gan ddefaid yn yr hydref a'r gaef a gan fod pori gwartheg yn arwain at lai o ysgall, rhowch wartheg ar ardaloedd sy'n cael eu pori gan ddefaid pan fydd hynny'n ymarferol.



Gall y strategaethau hyn gael eu cyfuno â phori yn drwm rhwng Mai a Gorffennaf a thorri ysgall ym mis Medi pan fydd yr ysgall yn eu blodau ac egni wrth gefn y planhigion ar eu hisaf.

Bydd y chwynladdwyr glaswelltir mwyaf effeithiol yn effeithio ar feillion yn y gwndwn, felly pan fydd presenoldeb chwyn yn ffactor, cynlluniwch i ail gyflwyno meillion yn hwyrach yn y tymor.

I ffermwyr organig mae adroddiad ar gael a gyhoeddwyd yn ddiweddar (2016) Creeping thistle- successful control in organic farming gan y Sefydliad Ymchwil Amaethyddiaeth Organig (FiBL) a'r Ganolfan Ymchwil Organig (*Elm Farm*).

Dengys ymchwil y gellir rhwystro gormodedd o ysgall trwy:

- Cadw glaswellt yn drwchus sy'n cystadlu â'r ysgall wrth iddynt ymddangos yn y gwanwyn.
- Gynyddu'r gwrtaith sy'n cael ei chwalu yn y gwanwyn sy'n cynyddu gallu glaswellt i gystadlu â'r ysgall.
- Wirio'r mynegeion pridd P a K a'r pH a chreu amodau i laswellt a meillion dyfu yn gryf.
- Beidio â chreu darnau mawr o dir moel a all greu cyfle i hadau ysgall sy'n cael eu gwasgaru gan y gwynt ymsefydlu.

YSGALL ERAILL

Mae'r farchysgallen ac ysgallen y gors yn blanhigion dwyflwydd sy'n cael eu gwasgaru gan hadau.

Mae gan farchysgallen wreiddyn dwfn a rhosglwm a dylid tyllu dan ddaear pan fydd yn ifanc neu ei dorri cyn iddo flodeuo ychydig uwch wyneb y tir cyn iddi fwrw fel bod y coesyn a'r planhigyn yn pydru. Gallwch reoli'r ysgallen ddigoes, ysgallen bendrom a'r ysgallen grech yn yr un ffordd.

Mae ysgall y gors yn ffynnu mewn priddoedd gwlyb asidig. Gwellwch y draeniad, rhowch galch ac atal yr hadau trwy eu tynnu neu eu torri.

Mae chwistrellu gan ddefnyddio chwynladdwr trawsleoli (yn cynnwys clopyralid a triclopyr er enghraifft) yn helpu i drin ardaloedd bychain o chwyn neu pan fydd angen dull wedi ei dargedu. Wrth ddefnyddio chwynladdwyr dylech ddarllen y label bob amser.

Gwelir gwiddon coch, *Dermanyssus gallinae*, trwy'r diwydiant dofednod i gyd ac maent yn ffynnu ar yr amodau byw mewn systemau dofednod. Mae'n wybyddus bod gwiddon coch yn cynyddu cyfraddau anaemia, marwolaeth a pha mor agored yw'r dofednod i afiechyd ac maent yn cael effaith negyddol hefyd ar broffidioldeb busnes gan effeithio ar effeithlonrwydd porthiant, cynhyrchiant wyau, ansawdd yr wyau a'r cynnydd ym mhwysau'r adar.

Beth yw Gwiddon Coch?

Ectoparasiaid gwydn yw gwiddon coch sy'n cuddio mewn agennau ac yn byw ar waed y dofednod. Mae dyluniad systemau dofednod, er eu bod wedi eu dylunio i sicrhau lles yr adar, yn cynnig amgylchedd delfrydol a manau i'r gwiddon coch guddio.

Cylched bywyd y gwiddon coch

Dylid deall cylched bywyd gwiddon coch er mwyn i driniaeth fod yn effeithiol. Bydd rhai o'r gwiddon yn sugno gwaed yr adar bob 2-4 diwrnod tra bydd rhai eraill yn cysgu am sawl mis.

Mae pedwar cyfnod yn y gylched bywyd i'w hystyried: Larfae yn deor gyda chwe choes ac nid ydynt yn bwyta, mae protonymffau, deutonymffau a benywod sy'n oedolion yn byw ar waed, ond dim ond yn achlysurol mae'r rhai gwryu yn bwyta.

Mae'r oedolion yn dodwy a'r wyau'n troi yn larfae ond mae arnynt angen "pryd o waed" cyn y byddant yn gallu bridio a dodwy wyau. Mae tymheredd yn cael effaith fawr ar y nifer o wyau sy'n cael eu cynhyrchu, ar 5°C gall benyw ddodwy 150 o wyau ym mhob nythed; ond gall 300 o wyau gael eu dodwy ar 25°C.

Sut gellir rheoli gwiddon coch?

Ceisiwch ddeall y cynnyrch yr ydych yn ei ddefnyddio, gweithredwch gamau bioddiogelwch caeth trwy'r cyfnod hwn a sicrhau bod trefn lanhau drylwyr yn cael ei gweithredu. Mae cynnyrch ar gael fydd yn diheintio ac yn lladd gwiddon coch ond dylai'r milfeddyg fod â rhan yn y penderfyniad o ran y cynnyrch mwyaf addas i'w ddefnyddio.

Bydd Cyswllt Ffermio yn ymchwilio i driniaethau gwiddon coch blaengar gyda Safle Ffocws dofednod dros y 12 mis nesaf.

Bydd y newyddion diweddaraf am y prosiect hwn ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio yn gyson.



EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success

Archwilio dichonolrwydd ymarferol ac ariannol tyfu asbaragws yn organig ar raddfa fechan

Mae gan asbaragws botensial da yng Nghymru gan ei fod yn gnwd uchel ei werth sy'n denu lefelau gwerthiant da yn uniongyrchol o'r fferm. Mae'r cnwd yn llenwi'r bwlch rhwng diwedd mis Ebrill a diwedd mis Mehefin pan nad oes llawer o gnydau eraill ar gael yn y DU. Er bod galw mawr am asbaragws, mae'r costau sefydlu'n uchel a'r cyfnod hir cyn y cynhaeaf cyntaf yn golygu nad yw tyfu'r cnwd yn ddewis deniadol i dyfwyr ar raddfa fechan.

Nod y prosiect hwn yw monitro allbynnau a meincnodi twf asbaragws organig ar ddwy fferm yn Sir Fynwy ar raddfa cae. Bydd hyn yn arwain at ddatblygu dealltwriaeth drylwyr o'r gofynion ymarferol ac ariannol.

Bydd gwahanol fathau o asbaragws yn cael eu plannu ar y ddwy fferm fel rhan o'r prosiect dros dair blynedd.

- **Eleni**, bydd yr asbaragws yn cael eu plannu ym mis Ebrill a bydd % ymddangosiad, niferoedd coesynnau rhedynog ac uchder yn cael eu monitro.
- Yn yr **ail flwyddyn**, gan ddibynnu ar niferoedd coesynnau rhedynog yn y flwyddyn gyntaf, efallai bydd angen tocio ychydig, ac yna byddant yn cael eu gadael i ddatblygu. Os nad yw'r coesynnau rhedynog yn ddigon cryf bydd y cnwd yn cael ei adael i ddatblygu a bydd uchder, ansawdd a nifer y coesynnau rhedynog yn cael eu hasesu.

- Yn y **drydedd flwyddyn** mae'n debygol y bydd cynaeafu ysgafn ar ddiwedd mis Mai, er mwyn cynaeafu cnwd mewn 3 gradd sef mawr, canolig a sbriw. Bydd data yn cael ei gasglu ar achosion o chwyn/plâu, perfformiad a chostau rheoli cnwd er mwyn medru meincnodi.

Yn y flwyddyn derfynol, mae'r cnwd yn debygol o gael ei gynaeafu ar ddiwedd mis Mehefin. Bydd rhagamcano'r cynhaeaf mawr cyntaf yn cael ei lunio drwy asesu'r planhigion o'r hydref blaenorol nes dechrau'r gwanwyn. Bydd costau organig adwerthol yn cael eu defnyddio ynghyd â'r costau cynaeafu sylfaenol.



Astudiaeth dichonolrwydd ar gynhyrchu Serenyn (Squill) yn ngogledd Cymru

Mae Serenyn gwyn (*Drima martima*) yn lysieuyn lluosflwydd sy'n frodorol i ardal y Canoldir. Mae'r darn oddfodog ar ei waelod yn cynnwys nifer o steroid glycosides (*Bufadienolides*) sy'n gyfansoddion allweddol mewn sawl moddion peswch. Yn y blynyddoedd diweddaraf, mae'r planhigyn wedi cael ei ddadwreiddio a'i gasglu'n sylweddol yn ei wlad frodorol, ar gyfer cwmnïau fferyllol, ac mae'r galw am bufadienolide yn cynyddu.

Mae ymchwil diweddar ar raddfa fechan wedi dangos ei bod yn bosib tyfu amrywiaeth benodol o serenyn yng Ngwynedd. Profwyd, hefyd, ei fod yn cynnwys dwywaith yn fwy o'r ansoddau actif na'r amrywiaeth sy'n cael ei gynhyrchu dramor. Mae pum ffermwr yn cymryd rhan yn y prosiect 18 mis hwn fydd yn archwilio'r gallu i dyfu serenyn mewn lleoliadau gwahanol ar draws gogledd Cymru. Y nod yw deall beth yw'r amodau tyfu gorau posib yn ogystal â thechnegau echdynnu a chynaeafu. Yn ystod gwanwyn 2018, bydd 200kg o fylbiau serenyn yn cael eu plannu ar y lleiniau arbrofol gydag uchder, pH, agronomeg a thir gwahanol i bob un.

Os yw'r canlyniadau'n gadarnhaol, gallai tyfu serenyn yn fod yn ddewis arallgyfeirio i ffermwyr Cymru.



Tyfu - Plannu lleiniau arbrofol o serenyn mewn nifer o leoliadau ar draws gogledd Cymru

Cynhyrchu - Ymchwilio ffyrdd o gynaeafu a phrosesu serenyn er mwyn gwahanu'r cyfansoddion bioactif a dargedwyd

Agronomeg - Canfod data a dadansoddiad o'r arbrofion tyfu

Gwerthuso Marchnad - Canfod marchnadoedd addas ar gyfer y cyfansoddion bioactif

Model Busnes - Datblygu a gwerthuso model ariannol o'r cyfle busnes.

Dysgu mwy am EIP Wales

Mae EIP Wales yn gyfle da i ffermwyr a choedwigwyr roi eu syniadau ar waith ac arbrofi gyda thechnoleg, cynnyrch neu dechnegau newydd gyda chyllid hyd at £40,000 ar gael i brosiectau a allai rhedeg am dair blynedd ar y mwyaf.

Ebostiwch eipwales@menterabusnes.co.uk neu ewch i www.llyw.cymru/cyswlltffermio am fwy o wybodaeth.



Cyfnod ymgeisio ar gyfer rhaglen Cyfnewidfa Rheolaeth yn agor yn fuan – mae'n bryd chwilio am pasbort!

Ydych chi erioed wedi bod eisiau dysgu am arferion gwneud siocled yng Ngwlad Belg, ymchwilio i'r grefft o drin chorizo yn Sbaen, darganfod mwy am gynhyrchu caws gafr yn uchel yn yr Alpau neu weithio gyda rhai o fridwyr mwyaf arloesol gwartheg cyfandirol? Gallai'r Gyfnewidfa Rheolaeth gynnig y cyfle perffaith i chi!

Bydd y cyfnod ymgeisio ar gyfer Rhaglen Cyfnewidfa Rheolaeth yn agor ddydd Gwener 1 Mehefin. Mae Cyswllt Ffermio yn chwilio am ffermwyr a choedwigwyr uchelgeisiol llawn ffocws sy'n awyddus i ehangu ar eu gorwelion trwy gymryd rhan mewn cyfnewidfa a/neu groesawu ffermwr neu goedwigwr o dramor i'w daliad.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn mynd ar daith neu'n croesawu ymwelydd a fydd yn cyfoethogi eu dealltwriaeth yn ymwneud â phwnc o'u dewis. Bydd ymweliadau dwy ffordd yn cael eu hannog, ond nid yn hanfodol. Ar ôl cwblhau'r broses cyfnewid, byddant yn rhannu eu canfyddiadau ar ffurf blogiau, dyddiaduron fideo, cyflwyniadau ac adroddiadau.

"Dyma gyfle gwych i ddysgu am ddulliau newydd neu well o weithio o fewn y sectorau ffermio neu goedwigaeth yn Ewrop, i ddysgu mwy am wahanol agweddau tuag at reolaeth busnes ac ehangu ar eich gwybodaeth, eich gallu technegol ac arbenigedd rheolaeth," meddai Einir Davies, Rheolwr Datblygu a Mentora Cyswllt Ffermio.

"Nodau'r rhaglen yw galluogi'r ddwy ochr i adnabod cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol a busnes ac i ddysgu arferion gorau newydd ac arloesol neu uwch y mae modd iddynt eu rhoi ar waith adref a'u rhannu gyda'r diwydiant ehangach yng Nghymru," meddai Ms Davies.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **dydd Gwener 29 Mehefin**. Mae'r rhaglen wedi'i hariannu'n llawn hyd at uchafswm o **£4,000** gyda'r costau'n cael eu hadhawlio ar ôl cwblhau'r daith gyfnewid.

Am ragor o fanylion ac i ddarllen adroddiadau ynglŷn â theithiau cyfnewid eraill sydd wedi digwydd ers lansio'r rhaglen yn 2016, ewch i wefan Cyswllt Ffermio.

A oes rôl i gnydau rhyg yng Nghymru?

Dr Delana Davies, Swyddog Gweithredol Cyfnewid Gwybodaeth Cyswllt Ffermio

Ar fferm Upper Pendre, Llangors, Aberhonddu, mae gwenith, haidd a rhygwenith yn cael eu tyfu'n llwyddiannus mewn cylchdro â'r i fwydo'r fuches laeth a'r gwartheg biff ar y fferm. Mae rhygwenith yn rhan addas iawn o'r cylchdro cnydau, ond mae'n agored iawn i niwed gan y gawod felyn, sy'n lleihau'r cnwd yn sylweddol ac mae'n gostus o ran amser ac arian i'w reoli. Mae bridwyr hefyd yn cael trafferth bridio amrywiaethau newydd o rygwellt, ac nid yw'r amrywiaethau'n cael eu profi am ymwrthedd i glefydau.

Mae rhyg yn llai agored i niwed gan haint gwynt na gwenith, haidd a rhygwenith ac yn cynnig cyfle i dyfu fel trydydd cnwd grawn yn y gylchred. Mae rhyg yn elwa o gael ei hau yn gynnar, ac mae'n rhoi mwy o gyfle i reoli chwyn nag yn achos haidd. Fodd bynnag, ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael ynglŷn â thyfu a bwydo grawn rhyg i i wartheg, a'r cnydau'n cael eu tyfu'n bennaf fel planhigion treuliad anaerobig (*bio-nwy*) gydag ychydig yn cael ei gynaeafu fel cnwd cyfan ar gyfer da byw.

AGRONOMEG RHYG

Ym Mhendre Uchaf, cafodd math o'r enw SU Cossani Hybrid gan Saaten Union (*bridiwr planhigion o Ddenmarc*) ei hau ar ddiwedd Medi 2016 ar gae 6ha ar gyfradd o 200 hadyn/m²



a chafodd ei chwistrellu â chwynladdwr a ddefnyddir i glirio chwyn cyn i ddail y cnwd ymddangos. Mae dyfnder hadau'n bwysig gan fod hadau rhyg yn fychan ac nid oes ganddynt ddigon o egni i alluogi i'r dail ymddangos o ddyfnder, felly argymhellir y dylid hau ar ddyfnder o 2cm. Mae rheoli gwllthod yn hanfodol yn ystod y cyfnodau cynnar ac argymhellir y dylid defnyddio Deter i drin hadau. Gall rhyg ddal BYDV (*Firws y Gawod Felyn ar Haidd*) felly dylid dilyn cyngor arferion gorau yn ymwneud â defnyddio plaladdwyr sy'n cynnwys pyrethroid.

Llun: Rhyg 19 Mai 2017

Crynodeb:

- Yn anffodus roedd barrug hwyr wedi difrodi cyfran o dywysennau'r rhyg wrth iddynt ymddangos
- Cafodd y cynhaeaf ei ohirio o ganlyniad i ddywydd gwlyb

- Arweiniodd hyn at gnwd o 6.9T/ha (2.8T/erw)
- Fe wnaeth y cnwd rhyg golled o £132.83/ha o'i gymharu ag elw o £270.79/ha yn achos y rhygwenith yn 2017
- Roedd cnwd y rhygwenith yn fwy (7.75T/ha) a'r costau'n is
- Roedd y rhyg dan anfantais o ganlyniad i sawl ffactor:
 - Mae rhyg yn agored i niwed gan lwydni a'r gawod goch
 - Mae'n gofyn am raglen rheoli twf planhigion cadarn iawn i'w gadw ar ei draed
 - Mae'n aeddfedu'n gynnar yn ystod y tymor, ac felly mae'n agored iawn i niwed gan farrug hwyr

GWERTH RHYG FEL PORTHIAN

Anfonwyd yr holl rawn a dyfwyd ar fferm Upper Pendre i'r labordy i gynnal dadansoddiad llawn o'u maeth.

	ME MJ/Kg DM	Protein Crai %	Lleithder %	Starts %
Rhygwenith	13.8	11.5	15.1	60.6
Haidd	13.2	9.7	13.8	51.5
Gwenith	13.7	12.1	14.1	57.3
Rhyg	13.6	10.9	13.2	49.2

Mae'r rhyg yn cymharu'n dda gyda'r grawn eraill o ran cynnwys Egni Metaboladwy (ME) gyda chynnwys starts tebyg i haidd. Mae gan ryg hefyd fantais gan ei fod yn cynnwys oddeutu 5% o siwgr sy'n gallu darparu ffynhonnell egni parod i ficrobau'r rwmen sy'n cyd-fynd â threuliad arafach y starts. Roedd lefelau Protein Crai'r rhyg yn eistedd rhwng lefelau haidd a rhygwenith.

Daethpwyd i'r casgliad y byddai modd defnyddio rhyg i amnewid yn uniongyrchol gydag unrhyw gnydau grawn eraill yn y dogn ar y fferm.

Mae costau llawn y fenter rawn ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio:

<https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/posts/oes-gan-ryg-rôl-yng-nghymru>

Amserlen Digwyddiadau

DYDDIAD	DIGWYDDIAD	LLEOLIAD	CYSWLLT
17/05/18 13:00-16:00	Achub bywydau a bywoliaeth - Ar y cyd gyda Partneriaeth Diogelwch Fferm Cymru	Coleg Glynllifon, Ffordd Clynnog, Llandwrog, LL54 5DU	Cyswllt Ffermio 08456 000 813
18/05/18 13:00-16:00	Achub bywydau a bywoliaeth - Ar y cyd gyda Partneriaeth Diogelwch Fferm Cymru	Gelli Aur, Coleg Sir Gâr, Golden Grove, Caerfyrddin, SA32 8NJ	Cyswllt Ffermio 08456 000 813
22/05/18 16:00-18:00	Gwella effeithlonrwydd y fuches sugno trwy Gydamseru Oestrws	Fferam Gyd, Rhosgoch, Amlwch, Sir Fôn, LL66 0BW	Gwawr Hughes 07932 610 697 gwawr.hughes@menterabusnes.co.uk
24/05/18 14:00-16:00	Mynd i'r afael â phori cylchdro	Fferm Ochor, Tregaron, Ceredigion, SY25 6QT	Menna Williams 07399 600 146 menna.williams@menterabusnes.co.uk
25/05/18 11:00-14:00	Gwneud y gorau o'ch glaswelltir - pori a silwair	The Rose Inn, Caldicot, Casnewydd, NP26 3DU	Imogen Ward 07985 379 819 imogen.ward@menterabusnes.co.uk
07/06/18 19:00-21:00	Pesgi gwartheg bíff - gwneud y defnydd gorau o borthiant	Marchnad da byw y Trallwng, Y Trallwng, Powys, SY21 8SR	Lisa Roberts 07399 849 148 lisa.roberts@menterabusnes.co.uk
14/06/18 14:00-16:00	Pesgi gwartheg bíff - gwneud y defnydd gorau o borthiant	Marchnad Da Byw Sir Fynwy, Raglan, Sir Fynwy, NP15 2BH	Catherine Nakielny 01970 631 406 catherine.nakielny@menterabusnes.co.uk
18/06/18 19:30-21:30	Brechlyn i gynyddu proffidioldeb eich haid	Stad Rhug, Corwen, Sir Ddinbych, LL21 0EH	Jodie Roberts 07896 996 841 jodie.roberts@menterabusnes.co.uk
19/06/18 14:00-16:30	Y dulliau gorau i ymladd afiechydon mewn moch	Fferm Cymunedol Greenmeadow, Cwmbran, NP44 5AJ	Jodie Roberts 07896 996 841 jodie.roberts@menterabusnes.co.uk
21/06/18 11:00-14:00	Rheolaeth a maeth gwartheg sych	Raglan Parc Golf Club, Raglan, Sir Fynwy, NP15 2ER	Imogen Ward 07985 379 819 imogen.ward@menterabusnes.co.uk
21/06/18 15:00-21:00	Merched Mewn Amaeth	Bangor on Dee Racecourse, Bangor-is-y- coed, Wrecsam, LL13 0DA	Meinir Parry 01248 660 376 meinir.parry@menterabusnes.co.uk
21/06/18 11:30-13:30	Beth yw defnydd gwrthfotig priodol?	Fenton Vets, 21 Portfield, Hwlfordd, Sir Benfro, SA61 1BN	Menna Williams 07399 600 146 menna.williams@menterabusnes.co.uk
26/06/18 11:00-14:00	O'r Llo i Lloia	New Dairy Farm, Casnewydd, NP10 8SF	Imogen Ward 07985 379 819 imogen.ward@menterabusnes.co.uk
28/06/18 15:00-21:00	Merched Mewn Amaeth	The Metropole Hotel, Llandrindod, Powys, LD1 5DY	Meinir Parry 01248 660 376 meinir.parry@menterabusnes.co.uk
05/07/18 11:00-14:00	Gwella Ffrwythlondeb	Raglan Parc Golf Club, Raglan, Sir Fynwy, NP15 2ER	Imogen Ward 07985 379 819 imogen.ward@menterabusnes.co.uk
05/06/18 09:00-17:00	Cymhorthfa TG	Castell Newydd Emlyn (<i>Leoliad i'w gadarnhau</i>)	Gwenan Jones 01970 636 296 gwenan.jones@menterabusnes.co.uk
08/06/18 09:00-17:00	Cymhorthfa TG	Myddfai (<i>Leoliad i'w gadarnhau</i>)	Gwenan Jones 01970 636 296 gwenan.jones@menterabusnes.co.uk